Cynllun Hyfforddiant Partneriaeth Pensiynau Cymru 2019/2020

Cefndir a Chyflwyniad

Mae'n arfer gorau i staff y Bartneriaeth gael:

- Gwybodaeth a dealltwriaeth briodol o:
  - y rheoliadau a'r marchnadoedd yn ymwneud â phensiynau;
  - cyd-fuddsoddi Cynlluniau Pensiwn Awdurdodau Lleol; a
  - cyfleoedd buddsoddi perthnasol.

Mae cynllun hyfforddiant y Bartneriaeth wedi cael ei greu i ychwanegu at gynlluniau hyfforddiant cyfredol yr Awdurdodau Cyfansoddol. Bydd anghenion hyfforddiant ar lefel leol yn parhau i gael sylw gan Awdurdodau Cyfansoddol, tra bydd cynllun hyfforddiant y Bartneriaeth yn cynnig hyfforddiant sy'n berthnasol i weithgareddau gyd-fuddsoddi'r Bartneriaeth.

Dylai fod gan staff y Bartneriaeth elfen o wybodaeth a dealltwriaeth sy'n sicrhau eu bod yn gallu cwblhau eu dyletswyddau sy'n gysylltiedig â'r Bartneriaeth.

Dylai staff y Bartneriaeth hefyd fod yn ymwybodol o fframwaith, credoau, polisïau a matrics llywodraethu'r Bartneriaeth, ynghyd â'r broses gwneud penderfyniadau a'r broses cofnodi penderfyniadau.

Awgrymir bod staff newydd y Bartneriaeth yn cwblhau hyfforddiant cyflwyno ffurfiol i gyrraedd y lefel o wybodaeth a nodir uchod. Yn dilyn hyfforddiant cyflwyno, mae disgwyl i staff gynnal eu dealltwriaeth o'r eitemau a nodir uchod, gan gwblhau unrhyw hyfforddiant ychwanegol yn ôl yr angen.

I gynorthwyo staff y Bartneriaeth, bydd yr Awdurdod Lletya yn trefnu sesiynau hyfforddiant chwarterol a fydd yn ymdrin â'r prif feysydd megis buddsoddi, gweinyddu, anghenion rheoleiddio, canllawiau'r Llywodraeth a datblygiadau'r farchnad. Noder y bydd yr Awdurdod Lletya yn cadw cofnod cynllun hyfforddiant a fydd yn cadw cofnod o'r holl hyfforddiant y mae staff y Bartneriaeth wedi'i gwblhau hyd yma, a'r hyfforddiant sydd angen cael ei gynnal yn y dyfodol rhagweladwy.

Isod, rydym wedi nodi rhestr o bynciau hyfforddiant a bydd yr Awdurdod Lletya yn trefnu hyfforddiant ar gyfer gweddill blwyddyn ariannol 2019/2020. Mae'r pynciau a amlinellir isod yn seiliedig ar yr ymatebion a dderbyniwyd gan holiadur anghenion hyfforddiant y Bartneriaeth yn 2019/20. Noder y bydd yr holiadur hwn yn cael ei ddarparu i'r Cydbwyllgor Llywodraethu ('y Cydbwyllgor') a'r Gweithgor Swyddogion ('GS') bob blwyddyn.

Hyfforddiant

Pwnc	Cyflwynydd yr Hyfforddiant	**Dyddiad**
Deall y Farchnad 1		Ch4 Ionawr - Mawrth 2020
• Lapwyr Cronfa (*Fund Wrappers*)	Y Gweithredwr	
• Trosglwyddo, trosglwyddo yn yr un fath, a dirwyn asedau anhylif i ben	Y Gweithredwr a'r Ymgynghorydd Arolygiaeth	
• Hyfforddiant ar Ddosbarth Ased	Russell Investments / Rheolwyr Buddsoddi a'r Ymgynghorydd Arolygiaeth	

Yn bennaf, bydd digwyddiadau hyfforddiant y Bartneriaeth yn canolbwyntio ar gwrdd ag anghenion hyfforddiant aelodau'r Gweithgor Swyddogion a'r Cydbwyllgor; fodd bynnag, anogir Awdurdodau Cyfansoddol i wahodd Cadeiryddion eu Pwyllgor Pensiynau, yn ogystal â chynrychiolwyr y Bwrdd Pensiynau, os ydynt yn credu y byddai'r hyfforddiant o fudd i'r unigolion hyn.

Hyfforddiant Unigol

Mae'n bwysig bod gan unigolion, a'u bod yn cadw, lefel 'briodol' o wybodaeth a dealltwriaeth o'r gweithgareddau sy'n berthnasol i'w dyletswyddau o fewn y Bartneriaeth.

Mae'n arfer gorau i unigolion adolygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth eu hunain bob blwyddyn o leiaf, ac ymgymryd â dysgu pellach ar gyfer unrhyw feysydd a nodwyd fel rhai sydd angen sylw neu ddatblygiad pellach. Dylai unigolion ystyried eu hanghenion dysgu a chofnodi unrhyw weithgaredd hyfforddiant a gwblhawyd, a hysbysu'r Awdurdod Lletya, a fydd yn cynorthwyo'r broses hon drwy ddarparu holiadur anghenion hyfforddiant blynyddol.